Morfa Mawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 2HH
☏: 01970-617996
✉: post@morlan.org.uk
www.morlan.org.uk

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

POLISI IECHYD A DIOGELWCH

Lluniwyd y ddogfen hon yn unol â darpariaethau Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle ac ati 1974 a'r rheoliadau a ffurfiwyd yn ei sgil.

CYNNWYS

DATGANIAD CYFFREDINOL

TREFNIADAETH A CHYFRIFOLDEBAU

1. Cyfrifoldebau'r Morlan
2. Cyfrifoldebau gweithwyr Morlan
3. Cyfrifoldebau Llogwyr ac ymwelwyr

TREFNIADAU

1. Damweiniau a chymorth cyntaf
2. Diogelwch cyffredinol yn y Morlan
3. Ysmygu
4. Diogelwch tân cyffredinol
5. System ac offer trydanol
6. Offer nwy
7. Sylweddau peryglus
8. Goleuo
9. Defnyddio'r gegin
10. Contractwyr

DATGANIAD CYFFREDINOL

Polisi Morlan, hyd y bo hynny'n rhesymol ymarferol, yw darparu a chynnal amgylchiadau gwaith, offer a systemau gwaith diogel ac iach ar gyfer ei holl weithwyr[1] ac i ddarparu'r cyfryw wybodaeth, hyfforddiant ac arolygaeth sydd eu hangen i'r diben hwn.

Bydd Morlan hefyd yn ymdrechu hyd y bo hynny'n rhesymol ymarferol, i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles pawb sy'n llogi'r Morlan neu'n mynychu digwyddiadau yma, ond disgwylir i'r bobl hynny ymddwyn yn synhwyrol a chyfrifol tra yn y Morlan, a dilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir iddynt, mewn pa bynnag ffurf y cânt eu rhoi. Cyfrifoldeb Person Penodedig y Llogwr fydd materion iechyd a diogelwch o fewn y digwyddiad ei hun, ac ymddygiad pob person sy'n mynychu'r digwyddiad, ym mha bynnag rhinwedd.

Bydd y polisi, a'r modd y gweithredir y polisi, yn cael ei adolygu'n gyson ac yn cael ei ddiweddaru a'i addasu yn ôl yr angen, yn arbennig:

- wrth i ddeddfwriaeth newid
- fel y bydd Morlan yn datblygu neu os bydd unrhyw newid o fewn yr adeilad ei hun
- pan geir damwain gwbl annisgwyl neu ddigwyddiad peryglus.

Bydd Morlan yn ymgynghori'n gyson gyda gweithwyr er mwyn derbyn eu barn ar faterion iechyd a diogelwch. Lle bo angen hynny, gofynnir am gyngor arbenigol wrth asesu unrhyw beryglon yn y Ganolfan a'r mesurau sydd angen eu cymryd i ddiogelu rhag y peryglon hynny.

Mabwysiadwyd: Tachwedd 2008
Diweddarwyd: Awst 2010

[1] Noder: defnyddir y term gweithiwr (gweithwyr) trwy'r ddogfen er hwylustod; mae'n cyfeirio at weithwyr cyflogedig a gweithwyr gwirfoddol fel ei gilydd.

TREFNIADAETH A CHYFRIFOLDEBAU

1. Cyfrifoldebau'r Morlan

Bwrdd Rheoli Morlan sydd â'r cyfrifoldeb pennaf a therfynol am iechyd a diogelwch. Dirprwyir materion iechyd a diogelwch i Reolwr y Morlan fel Swyddog Iechyd a Diogelwch. Fe ddylai'r Swyddog Iechyd a Diogelwch:

- ymgyfarwyddo â Rheolau Iechyd a Diogelwch sy'n ymwneud â chanolfannau cymunedol
- ymgyfarwyddo â, a chadw at, y Polisi Iechyd a Diogelwch a'r trefniadau
- sicrhau hyd ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol bod systemau gwaith diogel mewn lle
- sicrhau y cedwir y Morlan yn lân ac yn dwt
- sicrhau bod yr holl offer yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da a bod pawb sy'n eu defnyddio yn derbyn hyfforddiant priodol, yn ôl yr angen
- sicrhau bod y mynedfeydd a'r allanfeydd yn cael eu cynnal a'u cadw
- sicrhau bod offer ymladd tân ar gael ac yn cael eu cynnal a'u cadw
- sicrhau bod offer a dillad diogelwch yn cael eu darparu ac yn cael eu defnyddio pan fo angen hynny.

2. Cyfrifoldebau Gweithwyr Morlan

Y mae gan weithwyr Morlan gyfrifoldeb i gydweithio er mwyn gweithredu'r Polisi Iechyd a Diogelwch hwn ac i gymryd gofal rhesymol drostynt eu hunain a thros eraill wrth weithio yn y Ganolfan. Gofynnir yn garedig iddynt felly:

- cydymffurfio â rheolau diogelwch, cyfarwyddiadau a threfniannau gwaith
- hysbysu Rheolwr y Morlan yn syth os oes unrhyw ddiffyg neu nam mewn offer
- rhoi gwybod am unrhyw ddamwain (waeth pa mor fach), anafiadau, digwyddiadau sydd bron â throi'n ddamweiniau ac unrhyw beryglon eraill mor fuan ag sydd modd
- peidio â chamddefnyddio unrhyw beth gaiff ei ddarparu i bwrpas iechyd a diogelwch
- defnyddio dillad ac offer diogelwch pan fo angen.

3. Cyfrifoldebau Llogwyr ac Ymwelwyr

Er y bydd Morlan yn ymdrechu, hyd y bo hynny'n rhesymol ymarferol, i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles Llogwyr ac ymwelwyr, disgwylir i'r bobl hynny ymddwyn yn synhwyrol a chyfrifol tra yn y Morlan, a dilyn unrhyw gyfarwyddiadau a roddir iddynt, mewn pa bynnag ffurf y cânt eu rhoi. Cyfrifoldeb Person Penodedig y Llogwr fydd materion iechyd a diogelwch o fewn y digwyddiad ei hun, ac ymddygiad pob person sy'n mynychu'r digwyddiad, ym mha bynnag rhinwedd.

Mae copïau o'r *Telerau ac Amodau Llogi* a'r *Cynllun Argyfwng* ar gael i bob Llogwr. Mae llofnod y Llogwr ar y ffurflen llogi yn golygu ei fod wedi cydsynio i dderbyn y cyfrifoldebau a nodir yn y dogfennau hyn.

Mewn argyfwng, cyfrifoldeb Person Penodedig y Llogwr yw sicrhau bod y bobl sy'n mynychu'r digwyddiad yn gadael yn ddiogel mewn argyfwng. Os taw Morlan sydd wedi trefnu'r digwyddiad, cyfrifoldeb gweithwyr Morlan yw hysbysu'r ymwelwyr o'r trefniant priodol.

TREFNIADAU

Mae'r Adran hon yn gosod allan y trefniadau a wnaed er mwyn lleihau, hyd ag y bo hynny'n bosibl, y risg i iechyd a diogelwch gweithwyr Morlan ac ymwelwyr.

1. Damweiniau a Chymorth Cyntaf

Mae Blwch Cymorth Cyntaf wedi'i leoli yng nghegin y Bar Coffi (ar y silff waelod), ac ar ben y grisiau ar y llawr cyntaf.

Rhaid nodi unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad yn y Llyfr Damweiniau a leolir yn swyddfa Rheolwr y Morlan. Dylid tynnu sylw'r Rheolwr at unrhyw ddigwyddiad a fu bron ag achosi damwain fel y gellir ymdrin â'r broblem a'i datrys.

Camau i'w Cymryd:

- Os ydych yn cael damwain fach, dylech roi Cymorth Cyntaf i'ch hunan neu ofyn am gymorth os oes angen.
- Os ydych yn trin rhywun sy'n gwaedu, dylech fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o ddal HIV neu hepatitis. Mae'n hanfodol gwisgo menig pwrpasol cyn ceisio trin unrhyw un sy'n gwaedu, a'u taflu wedyn (ceir bocs o fenig wrth ymyl y Blychau Cymorth Cyntaf).
- Os yw'r ddamwain yn fwy difrifol ac onid oes modd ymdrin â hi yn y fan a'r lle yna fe ddylid trefnu i'r person fynd ar unwaith i Adran Ddamweiniau Ysbyty Bronglais – naill ai mewn cludiant preifat neu trwy alw am ambiwlans (os oes unrhyw ansicrwydd, galwch am ambiwlans). Gellir defnyddio'r ffôn yn swyddfa'r Rheolwr os yw'r swyddfa yn agored. Deialwch 999 a rhowch y cyfeiriad canlynol:
  CANOLFAN MORLAN, MORFA MAWR (QUEENS ROAD), ABERYSTWYTH SY23 2HH
- Os yw'r person yn anymwybodol neu wedi'i niweidio'n ddifrifol, ni ddylid ceisio ei symud na'i godi; dylid gadael hyn i bersonau proffesiynol oni bai fod ei adael yno yn ei roi mewn mwy o berygl.
- Cynhelir ymchwiliad i amgylchiadau pob damwain ddifrifol, felly ni ddylid newid safle'r ddamwain mewn unrhyw fodd, heblaw am resymau diogelwch, nes bod personau cyfrifol yn awdurdodi hynny.

2. Diogelwch Cyffredinol yn y Morlan

Bydd Morlan yn sicrhau bod yr adeilad yn cael ei archwilio'n rheolaidd, gan gynnwys y ffenestri, lloriau, grisiau ac ardaloedd allanol, a bydd unrhyw ddiffygion yn cael eu nodi a threfniadau yn cael eu gwneud i'w hatgyweirio. Pan fo hynny'n angenrheidiol, ymgymerir â gwaith dros dro er mwyn sicrhau nad oes risg o ddamwain neu niwed, a hynny hyd nes y bydd modd trefnu atgyweiriadau mwy parhaol.

Disgwylir hefyd i weithwyr Morlan ac ymwelwyr gymryd gofal rhesymol dros eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain a thros iechyd a diogelwch bobl eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd hwy. Synnwyr cyffredin yw llawer o hyn, ond fe nodir yma rai canllawiau cyffredinol:

- Cymerwch ofal wrth agosáu at ddrysau caeedig, ac wrth gerdded i fyny ac i lawr grisiau.
- Peidiwch â gosod na gadael unrhyw eitem mewn man lle gallai beri i bobl faglu neu gwympo, neu lle fyddant yn rhwystro llwybrau dianc neu allanfeydd tân.
- Dylid cadw stordai a mannau storio eraill yn dwt ac yn daclus. Awgrymir cadw eitemau trwm neu rai sy'n gallu torri ar y llawr neu ar y silffoedd isaf. Rhaid defnyddio stepiau/ysgol i gyrraedd mannau storio uchel.
- Defnyddiwch stepiau wrth agor a chau ffenestri'r neuadd (cedwir yng nghefn y neuadd).
- Cymerwch ofal rhesymol wrth symud llwythau, gan gynnwys symud dodrefn a'r llwyfan. Peidiwch â cheisio symud y llwyfan heb fod cymorth ychwanegol ar gael.
- Ceisiwch osgoi cario llwythau trwm ond, os yw hynny'n angenrheidiol, cofiwch blygu'r penliniau ac nid y cefn cyn codi'r llwyth, er mwyn lleihau'r straen ar y cefn. Peidiwch â chario gormod o lwyth er mwyn osgoi gwneud siwrnai arall, a cheisiwch sicrhau nad yw'r llwyth mor fawr fel ei fod yn rhwystro golwg.
- Os oes rhaid defnyddio ysgol, gwnewch hynny dim ond pan fo'r ysgol wedi'i gosod yn ddiogel. Gall hyn olygu defnyddio rhwymyn ysgol neu sicrhau cymorth person arall.

3. Ysmygu

Yn unol â'r gyfraith, ni chaniateir ysmygu o fewn Morlan.

4. Diogelwch Tân Cyffredinol

Polisi Morlan yw cyfarfod â'i oblygiadau o dan y Gorchymyn Diwygio Rheoliadau (Diogelwch Tân) 2005. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ganolfan yn ymgymryd â'r canlynol:

- asesiad risg tân blynyddol
- cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y gellir darganfod tân mewn amser rhesymol ac y gellir rhybuddio pobl – ceir larymau mwg a phwyntiau gweithredu'r larwm tân ar hyd yr adeilad
- cymryd pob cam rhesymol i wneud yn siŵr y gall pobl adael yr adeilad yn ddiogel – trwy sicrhau na osodir rhwystrau o flaen yr allanfeydd tân
- darparu offer ymladd tân priodol a sicrhau bod yr offer yn cael eu harchwilio'n flynyddol gan gwmni cydnabyddedig
- paratoi Cynllun Argyfwng ar gyfer Llogwyr fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud pe ddigwydd tân (copi o'r Cynllun ym mhob ystafell, ar wefan Morlan ac ar gael o'r swyddfa).

Bydd amgylchiadau unrhyw achos o dân yn cael eu harchwilio a chamau'n cael eu cymryd i leihau'r posibilrwydd o achos tebyg yn digwydd eto.

5. System ac Offer Trydanol

Bydd pob teclyn trydanol yn cael ei archwilio'n rheolaidd (yn unol â chyngor arbenigol a dderbynnir) gan drydanwr ardystiedig cymwys (prawf PAT). Bydd plygiau, ceblau a socedi hefyd yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gysylltiadau rhydd, fflecsys wedi treulio neu wifrau hir all faglu pobl. Defnyddir trydanwr ardystiedig i wneud unrhyw atgyweiriadau.

Bydd y system drydanol sefydlog yn cael ei harchwilio a'i phrofi gan gontractwr sydd â chymwysterau ac sy'n aelod o NICEIC, ECA neu unrhyw gorff cydnabyddedig arall bob pum mlynedd a bydd unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol yn cael ei wneud.

Oherwydd peryglon defnyddio offer trydanol sydd â nam arnynt, gofynnir i weithwyr (ac ymwelwyr os yw hynny'n berthnasol):

- sicrhau eu bod yn defnyddio'r offer trydanol yn gywir
- hysbysu'r Rheolwr o unrhyw ddiffygion yn syth, gan gynnwys plygiau, ceblau neu socedau nad ydyw mewn cyflwr boddhaol
- diffodd teclynnau trydan a'u datgysylltu pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Ni ddylid:

- defnyddio na cheisio atgyweirio unrhyw declyn nad ydyw'n gweithio iawn
- byth gorlwytho cylchedau trydanol
- gosod ceblau ar draws mannau lle mae pobl yn cerdded heb ddefnyddio gorchuddion diogelwch addas
- gosod gwresogyddion cludadwy yn ymyl deunyddiau hylosg neu eu gadael heb eu diffodd mewn ystafell wag.

6. Offer Nwy

Bydd Morlan yn cynnal a chadw bwyleri ac unrhyw offer nwy a'u harchwilio'n flynyddol gan ddefnyddio contractwyr cymwys sy'n cael eu cydnabod fel gosodwr nwy gan CORGI. Bydd unrhyw waith angenrheidiol yn cael ei wneud.

7. Sylweddau Peryglus

Lle bo hynny'n bosibl bydd Morlan yn sicrhau nad yw sylweddau peryglus yn cael eu defnyddio. Pan nad yw hyn yn bosibl, bydd sylweddau peryglus yn cael eu cadw dan glo a dim ond pobl â'r profiad perthnasol fydd yn gallu eu defnyddio. Ni ddylid bydd cymysgu sylweddau o'r fath na'u cadw mewn cynhwysydd sydd heb ei labeli'n glir.

O ran y llungopïwr, cedwir pob deunydd, megis y tonydd neu'r inc, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Rhaid ceisio osgoi cysylltiad corfforol â'r deunydd hwn.

Darperir offer amddiffyn personol pan fo hynny'n briodol.

8. Goleuo

Er mwyn sicrhau bod Morlan wedi ei goleuo'n ddigonol, archwilir yr holl oleuadau yn rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio, gan osod bylbiau newydd pan fo angen hynny. Dilynir y canllawiau diogelwch angenrheidiol ar gyfer gosod bylbiau newydd mewn llefydd uchel, gan alw ar drydanwr cymwys pan fo angen hynny.

9. Defnyddio'r Gegin

Dylid cymryd gofal wrth ddefnyddio'r gegin i baratoi paneidiau, a dylid gweithredu arferion glendid.

Darperir sinc ar wahân ar gyfer golchi dwylo ynghyd â thywelion papur. Dylid defnyddio'r sinc hwn ar gyfer golchi dwylo yn unig.

10. Contractwyr

Heblaw am weithwyr arferol, ystyrir unrhyw un sy'n dod i Morlan i wneud gwaith yn gontractwr. Disgwylir i bob contractwr, gan gynnwys rhai hunangyflogedig:

- bod â pholisi iechyd a diogelwch (pan fo hynny'n ofyniad cyfreithiol) a darparu copi ohono pe bai Morlan yn gofyn amdano
- dangos, pan fo angen hynny, bod unrhyw beiriannau a chyfarpar wedi cael eu harchwilio a'u profi o ran diogelwch
- peidio defnyddio is-gontractwyr heb ganiatâd penodol Bwrdd Rheoli Morlan. Bydd y cyfrifoldeb yn aros gyda'r contractwyr.